


# Newyddion

Newyddion y CE 47 - Haf 2014

## Cynnwys


- Pam mae hi mor bwysig i ffeilio Adroddiadau am Ddigwyddiadau Difrifol?
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen ....
- Mynnwch olwg ar ein podlediadau newydd!
- Ydych chi wedi darllen ein canllawiau diogelu wedi'u diweddaru?
- Ydych chi'n gwybod am y fframwaith cyfrifon elusennau newydd?
- Ydych chi'n cynnal ffydd a hyder cyhoeddus yn eich elusen?
- Gwnewch yn siŵr .... eich bod chi'n diweddaru manylion eich elusen
- Ein Hadroddiad Blynyddol yn dangos cynnydd mewn gwaith achos difrifol
- Ydych chi'n ymwybodol o ymgynghoriad Ffurflen Flynyddol 2015?
- Ydych chi wedi cynnwys eich datganiad budd cyhoeddus yn eich cyfrifon?
- Cyflwyno ein tîm monitro swyddogaeth gweithrediadau newydd
- Ydych chi wedi darllen ein canllawiau newydd ar sefydlu elusen?
- Cymryd rhan yn Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014
- Helpu i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus ym maes codi arian


## Pam mae hi mor bwysig i ffeilio Adroddiadau am Ddigwyddiadau Difrifol?

Cyhoeddwn adroddiadau achos gweithredol yn rheolaidd bellach, sy'n ein helpu i esbonio pa effaith y mae ein gwaith achos yn ei chael a darparu gwersi i ymddiriedolwyr. Cyhoeddwyd adroddiad achos rheoleiddio yn ddiweddar ar elusen sy'n gweithio yn Southwark a fethodd ac anfon adroddiad digwyddiad difrifol atom ar ôl i weithiwr gael ei ddyfarnu'n euog o droseddau rhywiol yn erbyn plant dan oed. Roedd yr elusen heb hysbysu Cyngor Southwark ychwaith, sef prif gyllidwr yr elusen.

Cafodd 1,280 o ddigwyddiadau difrifol eu hadrodd i ni yn 2013/14, ond mae'n debygol bod diffyg adrodd yn y maes hwn. Dylai ymddiriedolwyr adrodd am ddigwyddiadau difrifol i ni yn syth pan fyddant yn eu hamau, hyd yn oed os ydyn nhw eisoes wedi rhoi gwybod i'r heddlu neu reoleiddiwr arall. Dylen nhw hefyd gweithredu'n dryloyw a rhoi gwybod i gyllidwyr ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb am ddigwyddiadau a allai effeithio ar enw da'r elusen. Roedd yr adroddiad achos rheoleiddio wedi dangos sut y gall methu â gwneud hyn arwain at niwed i enw da'r elusen a cholli cyllid.

Mae dyletswydd gyffredinol gan ymddiriedolwyr i asesu a rheoli'r risgiau i weithgareddau, buddiolwyr, eiddo, gwaith neu enw da eu helusen. Mae adrodd am ddigwyddiadau difrifol yn dangos i ni eu bod nhw'n cydymffurfio'n briodol â'r ddyletswydd hon, a'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr.

Edrychwch ar yr adroddiad byr hwn i weld pa wersi y gall eich elusen chi eu dysgu o'r astudiaeth achos hon.

## Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen ....

Canllawiau newydd ar ymgyrchu ac etholiadau wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol cyn i'r Ddeddf Lobïo ddod i rym ar 19 Medi 2014. Mae'r canllawiau yn esbonio rheolau'r gyfraith etholiadol a'r gyfraith elusennau er mwyn i elusennau allu sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn y cyfnod yn arwain at etholiadau.

Er na all elusennau sy'n ymhél ag ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol byth gymryd rhan mewn gweithgareddau plaid wleidyddol, gall fod rhai amgylchiadau pan fydd angen iddyn nhw gofrestru ymgyrchwyr amhleidiol gyda'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r Ddeddf Lobïo yn cyflwyno rhai newidiadau i'r gofyniad hwn, ac i'r rheolau sy'n gymwys os oes angen cofrestru. Os yw'ch elusen yn cynnal ymgyrchoedd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen y canllawiau hyn, yn ogystal â'n canllaw ni.

## Mynnwch olwg ar ein podlediadau newydd!

Rydym wedi creu podlediadau yn ddiweddar i helpu ymddiriedolwyr i ddeall eu dyletswyddau o dan y gyfraith elusennau.

- Mae 'buddiolwyr fel ymddiriedolwr' yn trafod manteision 'ymddiriedolaeth defnyddwyr' a sut y gall ein canllawiau helpu i ragweld ac osgoi'r problemau a allai godi
- Mae 'rheoli anghydfodau' yn edrych ar astudiaeth achos o elusen sy'n ei chael hi'n anodd gweithredu oherwydd anghydfod mewnol, a beth yw ein cyngor a'n canllawiau

## Ydych chi wedi darllen ein canllawiau diogelu wedi'u diweddaru?

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant, weithredu er eu lles gorau nhw bob amser a sicrhau eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw niwed rhag digwydd iddynt. Mae cael mesurau diogelu yn eu lle yn amddiffyn ac yn hybu lles plant ac yn meithrin hyder ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, rhieni/gofalwyr a'r cyhoedd.

Rydym wedi diweddaru ein canllawiau diogelu plant a phobl ifanc. Mae rhai o'r newidiadau yn cynnwys:

- cyflwyniad diwygiedig yn amlinellu dyletswyddau cyfreithiol ymddiriedolwyr o ran diogelu
- adran wedi'i diweddaru ar ein rôl reoleiddio ym maes diogelu
- gwybodaeth wedi'i diweddaru am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sydd wedi disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol
- adran newydd ar 'Elusennau sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant dramor'
- diweddariadau i ddolenni i'n canllawiau a deddfwriaeth gyfredol ac i ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach

## Ydych chi'n gwybod am y fframwaith cyfrifon elusennau newydd?

Mae safonau ac arferion cyfrifyddu'r DU yn newid o 2015. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bob elusen sy'n paratoi cyfrifon croniadau (hefyd yn cael eu galw'n gyfrifon SORP), ond nid ydynt yn effeithio ar elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau. Mae'n bwysig bod Trysorydd eich elusen neu staff cyllid yn ymgyfarwyddo eu hunain â'r newidiadau hyn i weld a gaiff eich elusen ei heffeithio, a sut.

Bydd rhaid i bob elusen sy'n paratoi cyfrifon croniadau ddilyn un o'r ddau SORP newydd (Datganiadau o Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy). Mae'r Datganiadau o Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy yn weithredol ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015. Ar gyfer pob blwyddyn ariannol flaenorol mae'r SORP presennol (SORP 2005), yn gorfod cael ei ddilyn o hyd.

Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil yn datblygu rheoliadau newydd sy'n cynnig modd i elusennau ddilyn y ddau SORP newydd. Rhagwelir y bydd y rheoliadau hyn yn eu lle hefyd ar gyfer 1 Ionawr 2015. I gael rhagor o wybodaeth, ewch ar y micro-safle SORP penodedig. Dylai'ch archwiliwr neu archwiliwr annibynnol allu cynnig cyngor hefyd.

## Ydych chi'n cynnal ffydd a hyder cyhoeddus yn eich elusen?

Mae ymchwil annibynnol diweddar a gynhaliwyd gan Ipsos MORI ar ran y Comisiwn Elusennau wedi dangos bod ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau yn parhau i fod yn uchel, gyda sgôr ffydd o 6.7 allan o 10 yn gyffredinol. Dim ond yr heddlu a doctoriaid sy'n cael eu hymddiried ynddynt yn fwy nag elusennau.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn dangos newid ym marn y cyhoedd; mae pobl yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar reolaeth ariannol da gan elusennau, a dywedodd 96% ei bod hi'n bwysig i sefydliadau roi gwybodaeth i'r cyhoedd am wariant.

Fel ymddiriedolwyr, does dim lle i fod yn hunanfodlon - mae'n hollbwysig eich bod yn anfon eich cyfrifon a ffurflenni atom o fewn y dyddiad cau o 10 mis ar ôl diwedd eich blwyddyn ariannol. Ffeiliwch mewn pryd a chadwch ffydd gyhoeddus yn eich elusen yn uchel.

## Gwnewch yn siŵr .... eich bod chi'n diweddaru manylion eich elusen

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol gan ymddiriedolwyr i gadw manylion eu helusen wedi'u diweddaru, ac mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am newidiadau i enwau cyswllt eich elusen. Bydd diweddaru manylion eich elusen ar y gofrestr gyhoeddus yn helpu pobl i gael gwybodaeth am eich elusen, cysylltu â chi neu wneud rhodd.

Ni chaiff yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni am eich elusen ei chyhoeddi, ond mae'n rhaid iddi fod yn gyfoes. Dylech sicrhau bod pob un o ymddiriedolwyr eich elusen yn diweddaru'r ffurflen hon gyda'u cyfeiriadau e-bost, er mwyn cael yr wybodaeth bwysig y mae ei hangen arnynt i helpu i redeg yr elusen yn effeithiol. Ni fydd ymddiriedolwyr yn cael post sothach ac ni fydd cyfeiriadau e-bost unigolion yn cael eu cyhoeddi. Dylai'r ymddiriedolwr y mae ei gyfeiriad e-bost wedi'i restru ar hyn o bryd ar y ffurflen hon annog ymddiriedolwyr eraill yr elusen i ychwanegu eu cyfeiriad nhw.

## Ein Hadroddiad Blynyddol yn dangos cynnydd mewn gwaith achos difrifol

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf yn dangos cynnydd mawr yn ein gwaith achos ymchwiliol. Cychwynnwyd 64 ymchwiliad statudol (y lefel uchaf o'n gwaith ymchwiliol) rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, o'i gymharu â 15 yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae ymchwiliadau statudol yn cael eu defnyddio i ymchwilio i'r materion rheoleiddio mwyaf difrifol ac yn golygu y gallwn ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o'n pwerau cyfreithiol. Cychwynnwyd 1,865 o achosion cydymffurfio gweithredol hefyd.

Yn yr adroddiad tynnwyd sylw at bwysigrwydd meddwl yn ofalus cyn sefydlu elusen, ac awgrymwn ffyrdd eraill i'r cyhoedd allu ymateb i angen, megis gweithio gyda Sefydliad Cymunedol lleol sy'n rhan o'r Charitieis Aid Foundation. Cymeradwywyd 4,968 o elusennau i'w cofrestru yn 2013-14, o 6,661 o geisiadau.

Mae'r adroddiad yn dangos bod 86% o Ffurflenni Blynyddol ac 86% o gyfrifon blynyddol wedi cael eu ffeilio o fewn y dyddiad cau gan elusennau yn 2013-14. Mae gan ymddiriedolwyr ddeg mis ar ôl diwedd eu blwyddyn ariannol i ffeilio eu gwybodaeth flynyddol - gwnewch yn siŵr bod eich elusen yn parhau i fod yn atebol, ac yn ffeilio mewn pryd.

## Ydych chi'n ymwybodol o ymgynghoriad Ffurflen Flynyddol 2015?

Rydym wedi lansio ymgynghoriad ar nifer o gynigion ar gyfer newidiadau i Ffurflen Flynyddol 2015, yn dilyn ymgynghoriadau blaenorol a oedd wedi llywio'r newidiadau i Ffurflenni Blynyddol 2013 a 2014.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar yr wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd. Nid ydym am gynyddu'r baich ar elusennau, ond yn hytrach parhau i allu rheoleiddio elusennau'n effeithiol, yn ogystal â chynyddu tryloywder ac atebolrwydd ac ymateb i'r archwaeth cyhoeddus cynyddol am wybodaeth.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- gofyn i elusennau gydag incwm rhwng £10,000 a £500,000 a phobl SCE gydag incwm o dan £500,000 i roi ychydig o wybodaeth ariannol, gan gynnwys ar incwm a gwariant. Ar hyn o bryd, dim ond elusennau gydag incwm dros £500,000 sy'n rhaid darparu hyn
- cwestiynau ychwanegol am y swm sy'n cael ei wario ar weithgareddau ymgyrchu ac ar yr incwm a geir drwy ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a rhoddion unigol, ynghyd â nifer fach o newidiadau eraill sy'n ceisio cynnal llywodraethu da

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 12 Awst. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cymryd rhan!

## Ydych chi wedi cynnwys eich datganiad budd cyhoeddus yn eich cyfrifon?

Os yw incwm eich elusen dros £25,000 yn y flwyddyn gyfrifyddu, mae'n rhaid i chi anfon copi o'ch cyfrifon ac adroddiad blynyddol atom. Ynddynt, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ddweud sut y maen nhw wedi cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr 'elusennau cofrestredig llai' (incwm o dan £500,000) gynnwys:

- disgrifiad byr o brif weithgareddau'r elusen sy'n cyflawni ei dibenion elusennol er budd cyhoeddus
- datganiad ynghylch a ydynt wedi rhoi sylw digonol i'n canllawiau budd cyhoeddus os oes angen

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr 'elusennau cofrestredig mwy' (incwm dros £500,000) gynnwys:

- adolygiad o'r prif weithgareddau a wnaed gan yr elusen i hyrwyddo ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd
- dibenion ac amcanion yr elusen
- y strategaethau a fabwysiadwyd a'r gweithgareddau a wnaed i gyflawni'r dibenion a'r amcanion hynny
- manylion am y cyflawniadau trwy gyfeirio at y dibenion a'r amcanion a osodwyd
- datganiad ynghylch a ydynt wedi rhoi sylw digonol i'n canllawiau budd cyhoeddus os oes angen

I gael rhagor o fanylion am adrodd ar fudd cyhoeddus, gan gynnwys enghreifftiau a sut y gall helpu eich elusen, gweler ein canllaw Budd cyhoeddus: adrodd (PB3).

## Cyflwyno ein tîm monitro swyddogaeth gweithrediadau newydd

Sefydlwyd tîm monitro swyddogaeth gweithrediadau i fonitro'n rhagweithiol sbectrwm eang o elusennau o wahanol faint, ac adnabod materion sydd o bryder i ni. Mae gweithgareddau monitro yn cynnwys archwilio llyfrau a chofnodion elusennau, ymweliadau adolygu a rhoi cynlluniau gweithredu i elusennau i ddatrys materion o bryder. Rôl y tîm monitro yw sicrhau bod elusennau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau rheoleiddio a bod byrddau ymddiriedolwyr yn gweithredu er lles gorau'r elusennau. Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn dangos effaith y tîm newydd hwn a wnaeth 318 o gyfeiriadau rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2014. Bydd materion o risg uchel neu o bryder difrifol yn cael eu cyfeirio at ein tîm Ymchwiliadau a Gorfodi neu at asiantaethau gorfodi eraill.

## Ydych chi wedi darllen ein canllawiau newydd ar sefydlu elusen?

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar sefydlu a chofrestru elusen, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i ymddiriedolwyr presennol.

- mae sut i ysgrifennu amcanion elusennol yn rhoi manylion ynghylch sut i ysgrifennu amcanion yn gywir ac mae'n disgrifio'r gwahaniaeth rhwng amcanion a datganiadau cenhadaeth. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i elusennau sy'n ad-drefnu
- ydych chi'n ymddiriedolwr newydd? Edrychwch ar yr esboniad o beth yw elusen
- ydych chi'n gwneud penodiadau ymddiriedolwyr newydd? Defnyddiwch y ffurflen Datganiad Ymddiriedolwyr ddiwygiedig i gadarnhau cymhwyster

## Cymryd rhan yn Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014

Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014 yn cael ei chynnal rhwng 10-16 Tachwedd. Mae'r ymgyrch, sydd yn ei phumed flwyddyn bellach, yn rhoi llwyfan i waith clodwiw ymddiriedolwyr ac yn tynnu sylw at y cyfleoedd i bobl o bob cefndir i gymryd rhan. Dan arweiniad grŵp partner o gyrff gan gynnwys y Comisiwn Elusennau, NCVO, y Sefydliad Codi Arian a'r Small Charities Coalition, mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr hefyd yn dangos yr adnoddau sydd ar gael i helpu ymddiriedolwyr presennol i redeg eu helusennau. Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014 yn cael ei lansio'n swyddogol yng Nghynhadledd Ymddiriedolwyr NCVO ar 10 Tachwedd 2014 - digwyddiad blynyddol sy'n codi ymwybyddiaeth o waith ymddiriedolwyr.

Rhowch gynnig ar gystadleuaeth fideo 'Un mewn Miliwn' Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014 i ennill tocyn i Gynhadledd Ymddiriedolwyr NCVO a derbyniad diodydd!

I wybod rhagor ewch i wefan Wythnos yr Ymddiriedolwyr a dilynwch @trusteesweek

## Helpu i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus ym maes codi arian

Mae Adroddiad Cwynion eleni y Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) yn dangos tuedd tuag at fwy o dryloywder ac atebolrwydd, gyda dros 1,200 o elusennau codi arian yn cyflwyno ffurflen gwyno fel rhan o'u gofynion hunanreoleiddio.

Yn gyffredinol, roedd yr elusennau yma wedi adrodd 48,432 o gwynion codi arian o 2013. Roedd yr elusennau mwyaf wedi adrodd y rhan fwyaf o gwynion gyda chyfartaledd o 515 o gwynion, tra bo'r elusennau lleiaf arferol yn cael un neu ddim.

Mae cwynion yn amrywio'n eang, o enwau a chyfeiriadau wedi'u sillafu'n anghywir ar lythyron i honiadau o ymddygiad gwael gan godwyr arian stepen drws.

Er bod cyfanswm y cwynion yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol, mae cyfran y cwynion o'i chymharu â lefel y gweithgarwch yn parhau'n isel.

Mae elusennau sy'n ymrwymo i hunanreoleiddio codi arian ac sy'n cyflwyno gwybodaeth am gwynion yn helpu i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus ym maes codi arian i elusennau. Os yw'ch elusen yn aelod o FRSB, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n chwarae eich rhan ac yn anfon eich ffurflen gwyno flynyddol pan ofynnir i chi wneud hynny.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau i gyd? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar @ChtyCommission**